

**Cartrefi  
Cymunedol  
Cymru**  
**Digwyddiadau**



# **Cynhadledd Flynyddol**

# **2019**

**Gwesty Mercure  
Holland House, Caerdydd**  
*21 Tachwedd 2019*

Hoffai CHC ddiolch i'r cwmnïau  
dilynol am eu nawdd:





## Gwesty Mercure Holland House | 21/22 Tachwedd 2019

### Dydd Iau 21 Tachwedd

<b>08:30 AM</b>	<b>Cofrestru, Lluniaeth a Rhwydweithio</b> <i>Lobi Ystafelloedd Calon</i>
<b>09:00AM</b>	<b>Croeso</b>
	Ystafelloedd Calon 1
	<i>Sian Lloyd, Darlledwraig a Newyddiadurwraig - Cadeirydd y Gynhadledd @SianLloydnews</i>
<b>09.10am</b>	<b>Anerchiad y Gweinidog</b>
	Ystafelloedd Calon 1
	<i>Julie James AC, Gweinidog Tai ac Adfywio</i> <i>@WGMin_Housing</i>
	Ar ôl bron flwyddyn yn y swydd, bydd y Gweinidog yn bwrw golwg yn ôl ar ei chyfnod fel Gweinidog a'r llwyth o waith sy'n mynd rhagddo yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol ar y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy.
<b>09:30AM</b>	<b>Gosod y Llwyfan</b>
	<i>Stuart Ropke, Prif Swyddog Gweithredol, Cartrefi Cymunedol</i> <i>@Stuart_CHC</i>
	Gyda CHC yn dathlu ei ben-blwydd yn 30ain oed, bydd Stuart yn edrych yn ôl ar dwf cymdeithasau tai a CHC, ac yn edrych i'r dyfodol, gyda'n cynlluniau cyffrous i helpu aelodau i gyflawni ein gweledigaeth <i>Corwelion Tai</i> a gwireddu effaith Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.



<b>10:00AM</b>	<b>Beth Nesaf i San Steffan?</b>
	<i>Nick Watt, Golygydd Gwleidyddol BBC Newsnight</i>
	<p>Bu Nick Watt yn gweithio mewn newyddiaduraeth Brydeinig am bron 30 mlynedd, ac mae'n hoffi tynnu coes drwy ddweud mai cwmp Margaret Thatcher oedd ei fedydd tân mewn newyddiaduraeth wleidyddol. Fel golygydd gwleidyddol BBC Newsnight, mae ganddo arbenigedd diguro ar Brexit a'r rhagolygon gwleidyddol cyfredol ar draws y Deyrnas Unedig.</p> <p>Gyda'r Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Hydref, cynhelir ein Cynhadledd Flynyddol ar amser o dryblith gwleidyddol na welwyd ei debyg. Dewch i glywed beth mae'n ei olygu ar gyfer tai yng Nghymru.</p>

**10:45AM**

**Egwyl Lluniaeth  
Ystafelloedd Calon 2**

<b>11.15am</b>	<b>Beth nesaf i'r economi?</b>
	<i>Grace Blakeley, Sylwedydd Economaidd y New Statesman</i>
	<p>Fel Sylwedydd Economaidd y New Statesman a Chymrawd Ymchwil ar Gomisiwn Cyfiawnder Economaidd yr IPPR, mae Grace wedi ymddangos yn gyson ar sianeli'r cyfryngau darlledu ar draws y Deyrnas Unedig yn trafod dyfodol yr economi.</p> <p>Bydd Grace yn defnyddio ei harbenigedd mewn macro-economeg a thai i helpu cynrychiolwyr feddwl sut y bydd y datblygiadau economaidd diweddaraf, yn cynnwys Brexit, yn effeithio ar eu busnesau.</p>

**12.00pm**

**Cinio Rhwydweithio**

<b>13:00</b>	<b>Adeiladu Cymunedau: Tu Mewn ac Allan</b>
--------------	---



	<b><i>Chris Chinnock, Nurture Development</i></b>
	Nod ein Gorwelion Tai yw adeiladu cymunedau lle mae pobl yn iachach, mwy llewyrchus a mwy cysylltiedig. Sut mae gwneud hyn o'r ddaear i fyny? Bydd y sesiwn yn dysgu cynrychiolwyr sut i ganolbwyntio ar beth sy'n gryf ac nid ar beth sydd o'i le ac ymchwilio Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau.

**13:45**

## **Gweithdai**

### **Economi Sylfaen**

	<b><i>Karel Williams</i></b>
	Gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r Economi Sylfaen, dewch i glywed beth mae'n ei olygu i gymdeithasau tai, pa rôl y gallwn ei chwarae a sut y bydd yn llunio ein penderfyniadau a buddsoddiadau yn y dyfodol.

**13:45**

## **Partneriaeth, Cydweithredu a Mentrau ar y Cyd**

	<b><i>Helen Collins a Steve Partridge, Savills</i></b>
	Mae cydweithredu yn parhau i fod yn thema bwysig i'r sector. Argymhellodd yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy fod angen mwy o gydweithredu rhwng cymdeithasau tai a gyda phartneriaid yn cynnwys awdurdodau lleol.  Ymunwch â Savills i glywed am eu cyhoeddiad ar y cyd gyda CHC a pha gamau ymarferol y gallwch eu cymryd i gynyddu cydweithredu.

**13:45**

## **Amrywiaeth yn y gweithle**

	<b><i>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i></b>
	Sut gallwn ni sicrhau fod gweithleoedd y dyfodol yn croesawu amrywiaeth? Sut mae mynd i'r afael â rhagfarn anfwriadol? Ymunwch â Nia i glywed pa gamau y mae Cynulliad Cymru yn eu cymryd.



## 13:45 “Cymru Ein Dyfodol”

*Bonnie Navarra, Swyddfa Comsiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*

Bydd Comisiynydd cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyhoeddi adroddiad cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020.

Bydd tai yn un o ystyriaethau allweddol yr adroddiad, fydd yn gwneud argymhellion ar sut mae Cymru yn cyflawni ei hamcanion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr rannu eu syniadau neu bryderon ar y cynnydd tuag at gyflawni'r weledigaeth a gyflwynir yn y Ddeddf.

## 13:45 Diweddariad Rheoleiddiol

*Ian Walters, Pennaeth Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru*

Ymunwch â Phennaeth Rheoleiddio Llywodraeth Cymru i glywed y datblygiadau diweddaraf ar reoleiddio'r sector, yn cynnwys datblygu ymagwedd newydd y Rheoleiddiwr at lywodraethiant a risg a gaiff ei lansio y flwyddyn nesaf.

## 14:45 Egwyl Lluniaeth

### 15:15 Diweddu Digartefedd

*Jon Sparkes, Prif Weithredydd, Crisis*

*Ystafelloedd Calon 1*

I nodi eu pen-blwydd yn 50 oed, bu Crisis yn gweithio ar draws Prydain Fawr i ddatblygu cynllun i ddiweddu digartrefedd. Eu huchelgais yw nad oes neb yn cysgu ar y stryd, fod gan bawb le diogel i fyw ynddo a'n bod yn canolbwyntio ar atal digartrefedd.

Yn dilyn y gwaith hwn penodwyd Jon Sparkes, eu Prif Weithredydd, i gadeirio Grŵp Gweithredu Digartrefedd Llywodraeth Cymru. Yn y sesiwn yma bydd Jon yn bwrw golwg yn ôl ar brofiad y grŵp ac ysgogi trafodeath ar sut gall cymdeithasau tai helpu i ddiweddu digartrefedd yng Nghymru.



<b>15:45</b>	<b>O Faes y Gad i'r Ystafell Fwrdd</b>
	<b>Gemma Morgan, Morganeight</b>
	<b><i>Ystafelloedd Calon 1</i></b>
	<p>Yn gweithredu'n ddwfn tu mewn i Kosovo cyn ymgyrch NATO, cafodd arweinyddiaeth Gemma ei brofi ymysg realaeth lem gwrthdaro dynol, ond sylweddolodd yn fuan fod ei brwydr anoddaf ar fin dechrau. Gyda dros 20 mlynedd o brofiad rhyngwladol mewn arweinyddiaeth a pherfformiad tîm, ar draws y sectorau milwrol, busnes a chwaraeon elite, bydd Gemma yn rhannu ei phrofiadau fel arweinydd gyda ni.</p> <p>Bydd Gemma yn ysbrydoli cynrychiolwyr i ystyried eu heriau eu hunain a rhai eu sefydliad ac ymrwymo i wneud rhywbeth yn well.</p>

**16:45**

**Diwedd Diwrnod 1**

**17.00**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CHC - Ystafelloedd Aberhonddu**

*Cadeirir gan Andrew Martyn-Johns, Cadeirydd, Cartrefi Cymunedol Cymru*

**19:30**

**Derbyniad Diodydd**

*Lobi Ystafelloedd Calon*

**20:00PM**

**Cinio'r Gynhadledd**



## Dydd Gwener 22 Tachwedd

<b>09:00AM</b>	<b>Cofrestru a Rhwydweithio</b> <b>Lobi Ystafelloedd Calon</b>
<b>09:30AM</b>	<b>A fydd robotiaid yn cymryd ein swyddi?</b>
	Ystafelloedd Calon 1
	<i>Dr. Nicola Millard, Prif Bartner Arloesedd, BT</i>
	Pwy well i ofyn am Ddyfodol Gwaith na Dr. Nicola Millard, Prif Bartner Arloesedd BT? Bydd Nicola yn trafod ystwythder gweithle, swyddfa'r dyfodol a pha fathau o sgiliau fydd rheolwyr eu hangen i arwain timau'r 21ain ganrif.
<b>10:15AM</b>	<b>Sut i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd</b>
	<i>Rachel Armstrong, Arloesydd Cynaliadwyedd ac Uwch Gymrawd</i> <i>TED</i>
	Gyda llywodraethau ym mhob rhan o'r byd yn datgan argyfyngau hinsawdd, gofynnwn sut gall cymdeithas tai drin hyn.  Bydd Rachel yn trafod heriau amgylcheddol megis dal carbon ac ailgylchu, deunyddiau 'byw' deallus a dulliau newydd o ddylunio cynaliadwy ac yn herio cynrychiolwyr i feddwl 'tu allan i'r blwch' i ddatblygu datrysiadau amgylcheddol arloesol.
<b>11.00AM</b>	<b>Egwyl Lluniaeth</b>
<b>11:30AM</b>	<b>Tirlun Arloesedd</b>
	<b>Sarah Weller, Cyfarwyddydd, ?What If!</b>



	<p>Yn dilyn lansiad <i>Alcemi</i> - , bydd CHC yn gweithio gyda'n chwaer ffederasiynau tai a <i>What If!</i> i ymchwilio arloesi cydweithredol.</p> <p>Beth bynnag y cwestiwn, nid oes ateb pendant. Ond dros 25 mlynedd mae <i>What If!</i> wedi canfod ffordd gadarn i dynnu'r risg o dwf, gan gredu fod yr effaith yn dod nid yn unig o'r hyn a wnawn ond sut y gwnawn hynny.</p> <p>Bydd Sarah yn rhannu ei sylwadau ar y tirlun arloesedd a sut i ymwreiddio diwylliant arloesi o fewn y gweithle.</p>
--	---

<b>12:30 pm</b>	<b>Tŷ trwy'r Oesoedd</b>
	<b><i>David Olusoga, Hanesydd a Chyflwynydd rhaglen y BBC, A House Through Time</i></b>
	<p>Mae David Olusoga yn hanesydd, darlledwr a gwneuthurydd ffilm Prydeinig-Nigeraidd. Enillodd wobrau fel cyflwynydd a gwneuthurydd rhaglenni dogfen, ac mae hefyd yn ysgrifennu'n rheolaidd ar gyfer The Guardian a The Observer ac mae wedi ysgrifennu ar gyfer The Nation a'r BBC History Magazine.</p> <p>Yn ei gyfres A House Through Time ar y BBC, mae David yn olrhain hanes Prydain gan ddilyn preswylwyr olynol un cartref mewn dinas ym Mhrydain. Wrth i ni edrych ar ddyfodol tai yng Nghymru, bydd David yn gofyn pa wersi y gallwn eu dysgu o hanes.</p>
<b>13.15 pm</b>	<b>Diwedd Diwrnod 2 <i>Casgliadau'r Gynhadledd</i></b>
<b>13.20 pm</b>	<b>Cinio a Gadael Ystafelloedd Calon 2</b>